

## Cynllun Efe

Yn ystod Wythnos y Pasg (yr wythnos cyn Gŵyl LLANW yng Nghricieth), cynhelir cynhadledd Gristnogol arall yma yng Ngogledd Cymru. Yng ngwersyll Pontins ym Mhrestatyn y cynhelir Word Alive, ac fel mae'r enw yn awgrymu, gŵyl Saesneg ei hiaith yw hon. Ond rwy'n sôn amdani am fod Word Alive ers sawl blwyddyn yn gwneud casgliad yn un o'u hoedfaon at waith Cristnogol lleol. Ac eleni, mae'r trefnwyr wedi addo y bydd Cynllun Efe yn derbyn peth o'r arian hwnnw. Mae hynny wrth gwrs yn newydd da i ni. Mae'n dda gweld fod y trefnwyr yn awyddus i gefnogi ein gwaith.

## Cyhoeddiadau

### CEFNYWAUN AC EBENESER

**Dydd Sul, Mawrth 19:** Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan Y Gweinidog.

### CAPEL COCH A NANT PADARN

**Dydd Mawrth, Mawrth 14:** Bore Coffi er budd Cronfa Adnoddau'r Capel rhwng 10.45 a 12.00 o'r gloch.

**Nos Wener, Mawrth 17:** Cynhelir CIC am 7.00 o'r gloch.

**Dydd Sul, Mawrth 19:** Bydd yr oedfa am 10.00 o'r gloch yng ngofal Colin Jones a Gareth Jones. Cynhelir yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Bydd yr oedfa am 5.00 o'r gloch yng ngofal aelodau Parti Bytholwyrdd.

### Y mis nesaf - Deiniolen

#### Mawrth 12

5.00 p.m. - Dr Huw Tegid Roberts

#### Mawrth 19

5.00 p.m. - Y Gweinidog

#### Mawrth 26

5.00 p.m. - Mr Thomas A Williams

### REHOBOTH

**Dydd Sul, Mawrth 19:** Ni fydd oedfa.

### BETHLEHEM

**Nos Fercher, Mawrth 15:** Cyfarfod 'Y Ffordd' yn Festri Carmel am 7.00 o'r gloch.

**Dydd Sul, Mawrth 19:** Yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch. Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan Mr Dafydd Iwan, Caethro.

**Dydd Iau, Mawrth 23:** Cynhelir 'Bwrlwm' rhwng 2.15 a 3.45 o'r gloch.

### CARMEL

**Nos Fercher, Mawrth 15:** Cyfarfod 'Y Ffordd' am 7.00 o'r gloch.

**Nos Wener, Mawrth 17:** Dwylo Prysyr am 6.30 o'r gloch.

**Dydd Sul, Mawrth 19:** Bydd yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch, a gwasanaethir yn yr oedfa am 5.00 o'r gloch gan Miss Nerys Jackson, Caernarfon

### CYNLLUN EFE

**Dydd Llun, Mawrth 13:** Ni chynhelir y Cyfarfod Gweddi, ond fe'i cynhelir ddydd Llun, Mawrth 20, yn 'Cartref', Caethro am 10.30 o'r gloch.

**Dydd Llun, Mawrth 20:** Cyfarfod Ymddiriedolwyr Efe.



### Y mis nesaf - Llanberis

#### Mawrth 12

10.00 a.m. - YGweinidog

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Oedfa MOLI

#### Mawrth 19

10.00 a.m. - Oedfa yng ngofal Gareth Jones a Colin Jones

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Oedfa yn ngofal Parti Bytholwyrdd

#### Mawrth 26

10.30 a.m. - Oedfa Deulu



# Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las  
Rhif 720: Dydd Sul, 12 Mawrth, 2017

## Drawdod

Ilwyr ydi beirniadu pobl am weithredu mewn ffordd arbennig, a chithau'n gwneud yr un peth yn union. Mae'n amlwg fod Mrs May yn credu ei bod yn iawn iddi hi siarad hyd syrffed am annibyniaeth i Brydain; ond obsesiwn cas yw i'r SNP sôn am annibyniaeth i'r Alban. Yr un peth sy'n fy ngwylltio a'm digalonni'n fwy na rhagrith Mrs May yw twpdra'r bobl sy'n edmygu ac yn canmol ei rhesymeg ddauwynebog.

Druan ohonom os derbyniwn ei bod yn iawn i ni lambastio pobl am wneud rhywbeth, a ninnau'n euog o'r un peth ein hunain. Bu rhagrith o'r fath yn sicr yn ddifaol yn hanes capeli ac eglwysi Cymru yn ystod y ganrif ddiwethaf. Faint o bobl a gefnodd ar y sefydliad crefyddol gan ei gyhuddo o gondemnio pechodau penodol tra'n euog o'r un pechodau, neu waeth, ei hunan?

Yn ein bywyd Cristnogol, mae angen gwylio bob amser rhag y duedd i weld bai ar eraill, a ninnau'n medru bod yn euog o'r un beiau'n union. Ac yn sicr, mae'n rhaid gwylio rhag cyfiawnhau pethau pan fyddwn ni'n eu gwneud ond eu condemnio pan fydd eraill yn eu gwneud. Fel y dywedodd Iesu yn y Bregeth ar y Mynydd, 'Pam yr wyt yn edrych ar y brycheuyn sydd yn llygad dy gyfaill, a thithau heb sylwi ar y trawst sydd yn dy lygad dy hun?' (Mathew 7:3) Roedd rhagrith yn drevi yn nyddiau'r Iesu. Onid yw'n hen bryd i Mrs May a'i hedmygwyr, fel y gweddill ohonom, ddeall ei fod yn dal i ddrewi?

A minnau wedi sôn amdani bythefnos yn ôl mae'n bosibl y byddai Theresa'n dweud fod gen i obsesiwn ynglŷn â hi. Mae Mrs May, wedi'r cwbl, yn un dda am nabod obsesiwn. Mi aeth i'r Alban i ddweud wrth bawb fod yr SNP yn chwarae gemau, yn esgeuluso'r gwir faterion sy'n poeni pobl, ac yn anonest; a'r cyfan (meddai hi) oherwydd yr hen obsesiwn cas sydd gan Nicola Sturgeon a'i phlaid ynglŷn ag annibyniaeth.

Dyma'r math o beth sy'n gwneud i mi wylltio efo Mrs May. Does a wnelo hyn ddim ac unrhyw gydymdeimlad â gwleidyddiaeth yr SNP: mi ddylai pob Ceidwadwr gonest ac egwyddorol gael ei wylltio gan ragrith dauwynebog eu harweinydd hefyd. Sôn am bentan yn gweiddi parddu! Ers gwisgo mantell y Prif Weinidog, y cyfan a gafwyd gan Theresa May ydi *Brexit*, oherwydd ei hobsesiwn hi ynglŷn ag annibyniaeth i'r Deyrnas Unedig. Onid chwarae gêm y mae hithau, a honno'n gêm anonest, gan ei bod flwyddyn yn ôl wedi dadlau mai aros o fewn yr Undeb Ewropeaidd a fyddai orau er lles 'Prydain'. Ac onid gêm yw'r cyfan i Boris Johnson ei Hysgrifennydd Tramor, ac yntau ar drothwy'r Refferendwm wedi sgwennu dwy erthygl, y naill o blaid aros o fewn yr Undeb Ewropeaidd a'r llall o blaid gadael, gyda'r bwriad mae'n debyg o fedru honni iddo fod yn bleidiol i ba bynnag ochr a fyddai'n ennill y ddadl?

Beth bynnag eich barn wleidyddol, mi ddylai'r fath siarad eich blino. Rhagrith

## Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen  
Ebeneser (A), Deiniolen  
Capel Coch (P), Llanberis  
Nant Padarn A), Llanberis  
Rehoboth (P), Nant Peris  
Bethlehem (A), Talybont  
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard  
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd  
Ffôn: 01286 872390  
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:  
gronyn.wordpress.com  
neu gronyn.org

## Balm o Salm

“Dywed yr ynyd yn ei galon,  
“Nid oes Duw.” Gwnânt  
weithredoedd llygredig a **BEIBL BYW**  
ffiaidd; nid oes un a wna ddaioni.  
Edrychodd yr Arglwydd o'r nefoedd ar  
ddynolryw, i weld a oes rhywun yn  
gwneud yn ddoeth, ac yn ceisio Duw.  
Ond y mae pawb ar gyfeiliorn, ac mor  
llygredig â'i gilydd; nid oes un a wna  
ddaioni, nac oes, dim un' (Salm 53:1-3).

## Heddiw

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00  
o'r gloch ac yn oedfa MOLI am 5.00 o'r  
gloch gan y Gweinidog. Bydd yr Ysgol  
Sul am 11.15 o'r gloch.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 5.00 o'r  
gloch gan Dr Huw Tegid Roberts.

Cynhelir yr Ysgol Sul yn Llanllechid am  
10.30 o'r gloch, ac yna gwasanaethir am  
5.00 o'r gloch gan y Parchg Dafydd  
Coetmor Williams.

Bydd yr Ysgol Sul yn Nhalybont am

10.00 o'r gloch, a gwasanaethir am 2.00  
o'r gloch gan y Gweinidog.

Nid oes oedfa yn Rehoboth heddiw.

## Cofion

Anfonwn ein cofion at bawb sydd heb  
fod yn dda, ac yn arbennig at bawb sy'n  
methu â dod i'r oedfa ar hyn o bryd.

## Bore coffi

Cynhelir y Bore Coffi misol yn festri  
Capel Coch rhwng 10.45 a 12.00 o'r  
gloch, ddydd Mawrth, Ebrill 8 er budd  
Cronfa Adnoddau'r Capel.

## Coleg y Bala

Mae'n bryd dechrau meddwl am y Cwrs  
Plant a fydd gennym ar y cyd â Gofalaeth  
Llanrug yng Ngholeg y Bala ym mis  
Mai. Dyddiadau'r cwrs yw pnawn  
Gwener, Mai 13 hyd ddydd Sul, Mai 15.

Bydd y penwythnos hwn ar gyfer plant 8  
i 12 oed.

Mae croeso cynnes i blant yr Ofalaeth  
gyfan i ymuno â'r criw a fydd yn mynd  
i'r Bala.

## Agor y Llyfr

Bydd criw Agor y Llyfr yn ymweld ag  
Ysgol Gwaun Gynfi fore Gwener,  
Mawrth 17.

Byddai'n dda cael rhagor i ymuno â'r  
tim. Beth am ddod unwaith i [gael gweld  
beth sy'n digwydd?](#)

Cynhelir cyfarfod nesaf 'Y Ffordd' yn



festri Carmel am 7.00 o'r gloch, nos  
Fercher, Mawrth 15. Croeso cynnes i  
chi ymuno â ni. Y ddwy thema a gaiff  
sylw y tro hwn fydd 'Y Beibl yn y canol'  
a 'Trin a thrafod y Beibl'.

Dyma'r cwestiynau a osodwyd. Byddwn  
yn trafod rhai ohonynt nos Fercher.

### 'Y Beibl yn y canol'

1. Pa ddefnydd a wneir o'r Beibl yn eich  
eglwys chi?
2. Oes storiâu neu gymeriadau arbennig  
yn Y Beibl sy'n eich ysbrydoli neu yn  
eich herio yn sefyllfa'r Eglwys heddiw?
3. Pa mor bwysig yw gweld Y Beibl trwy  
lygaid pobl eraill, a faint o bwyslais sydd  
ar wneud hynny o fewn eich eglwys?
4. Pam fod cymaint heddiw yn cael an-  
hawster i weld Y Beibl yn berthnasol i'w  
bywyd?

### 'Trin a thrafod y Beibl'

1. Ydy'ch ffydd bersonol wedi newid neu  
ddatblygu yn ystod eich oes? Os ydyw,  
ym mha ffyrdd, a beth fu'n gyfrifol am  
hynny?
2. Beth yw gwerth cyfathrebu'r neges  
Gristnogol drwy gyfrwng gwefan, neu  
gyfryngau cymdeithasol fel *Facebook* a  
*Twitter*? Oes yna beryglon?
3. Beth sy'n gyfrifol am y lleihad yn  
nifer yr Ysgolion Sul ar gyfer oedolion,  
ac a oes yna rywbeth arall a allai gymryd  
eu lle?
4. Oes go-bwyslais ar bregethu'r Beibl ar  
draul ei gyflwyno mewn ffyrdd eraill

Yn amlwg, ni fydd modd trafod y cyfan,  
ond dyna nhw o ran diddordeb.

## CIC

Cynhelir CIC yn Capel Coch rhwng 7.00  
ac 8.30 o'r gloch nos Wener, Mawrth 17.

## Trip Dwylo Pysur

Bydd criw Dwylo Pysur, Capel Carmel  
yn ymweld â Chlynnog a Phwillheli y mis  
nesaf, ac mae Mrs Helen Williams  
wrthi'n brysur yn cwblhau'r trefniadau ar  
hyn o bryd.

## Llanw

Bydd Gŵyl Llanw yn cael ei chynnal yng  
Nghricieth unwaith eto eleni.

Dyma'r trydydd tro iddi gael ei chynnal  
yno, a'r dyddiadau eleni yw Ebrill 17 hyd  
Ebrill 20. Bydd yn cychwyn felly ddydd  
Llun y Pasg.

Dros y deng mlynedd diwethaf, mae  
Llanw wedi datblygu'n ŵyl boblogaidd  
sy'n denu cannoedd o Gristnogion o bob  
oed o bob rhan o'r wlad. Bydd croeso  
cynnes i bawb a fydd yn mynd yno.

Dros dri bore ceir anerchiadau gan y  
Parchg John Treharne, Llwynhendy.  
Bydd gwahanol seminarau yn ystod y  
prynhawn. A cheir oedfaon mawl bob  
gyda'r nos, ac amrywiaeth o bobl yn eu  
harwain ac yn annerch ynddyn nhw.

Bydd modd aros yng Nghanolfan Wyliau  
Hafan y Môr ym Mhwillheli yn ystod yr  
wythnos, ac mae angen rchebu lle yno  
erbyn Chwefror 27. Ceir manylion ar  
wefan Llanw, [www.llanw.org](http://www.llanw.org)

Nid oes rhaid aros yno wrth gwrs. Mae  
llawer iawn yn dewis mynd i Llanw am y  
dydd neu i ambell un o'r cyfarfodydd.  
Mae hynny yn bosibl wrth gwrs i ni sy'n  
byw o fewn cyrraedd i Gricieth.

Mae'n sicr yn werth mynd i Llanw er  
mwyn profi cymdeithas Gristnogol a  
chael ymuno yn yr addoliad.